

Catchphrase 2002: Ysbyty Brynaber - Week 13

Key language

Tros + prepositions - trosto i
Trwy + prepositions - trwof i
Conditional tense - Baswn i etc
Future short form of Cael
'Dos' and 'Cer'

New words

gwydr	glass
gofalus	careful
dan draed	underfoot
llanast	a mess
gwastraffu	to waste
llonydd	still
gwaedu	to bleed
goleuadau	lights
yn fewnol	internally
ymennydd	brain
lapio	to wrap
blancedi	blankets
effeithio	to affect
cyflwr	condition
gwlychu at y croen	soaked to the skin
sych	dry
gwelw	pale
gwirion (NW)	stupid/silly
ymosod ar	to attack someone
gwarchod	to babysit
addo	to promise
chwydd	swelling
clatshe (SW)	a beating
dim mwg heb dân	no smoke without fire
cyflwr	condition
does dim dal	there's no telling

Main Grammatical Points

Tros

Trosto i
Trosot ti
Trosto fe/fo
Trosti hi
Troson ni
Trosod chi
Trostyn nhw

Trwy

Trwof i
Trwot ti
Trwyddo fo/fe
Trwyddi hi
Trwon ni

Trwoch chi
Trwyddyn nhw

Conditional tense

Faswn i

We have already come across the conditional tense conveyed in Welsh by the form Byddwn i.

In north Wales the form commonly heard is baswn i - I would

Here are the full forms

Faswn i	I would	Faswn i ddim	I wouldn't
Faset ti	You would	Faset ti ddim	You wouldn't
Fasai Brian	Brian would	Fasai Brian ddim	Brian would
Fasai hi/e/o	She/he would	Fasai hi/e/o ddim	She/he would not
Fasen ni	We would	Fasen ni ddim	We would not

(note the subtle difference between faswn i - I would and fasen ni - We would)

Fasech chi	You would	Fasech chi ddim	You would not
Fasen nhw	They would	Fasen nhw ddim	They would not

The question and answer follows the usual pattern of Welsh verbs:

Faset ti?	Would you?	Baswn	Yes (I would)
		Na faswn	No (I would not)
Fasai hi?	Would she?	Basai	Yes (She would)
		Na fasai	No (She would not)

These forms are often shortened - sw'n i - I would or sw'n i ddim - I wouldn't

Cael

Let's have another look at the future short form of the verb cael.

Ga i	I'll have
Gei di	You'll have
Gai ff e/hi (SW)	He/She'll have
Geith o/hi (NW)	He/She'll have
Gawn ni	We'll have
Gewch chi	You'll have
Gân nhw	They'll have

'Dos' in north Wales is the command form - Go

Jenny says

Dos allan ar ei ôl o
Dos i weld

In South Wales the form is Cer

Useful words and expressions:

Gwaedu	to bleed
Ymennydd	brain
Gwastraffu	to waste
Llonydd	still

Gwelw	pale
Cyflwr	condition
Pa fath o	what kind of
Ffordd fawr	main road
Gwlychu at dy groen	getting wet to your skin
Dim mwg heb dân	no smoke without fire

Ysbyty Brynaber: Episode 37

It's pandemonium at the Saunders household following the attack on Brian. He is unconscious and bleeding profusely - the ambulance has been called.

Geirfa

gwydr	glass
gofalus	careful
dan draed	underfoot
llanast	a mess
gwastraffu	to waste
llonydd	still
gwaedu	to bleed
goleuadau	lights
yn fewnol	internally
cleisiau	bruises
ymennydd	brain

Golygfa 1

Agnes - Brian! Brian!
Arwyn - Watshiwch y gwydr!
Agnes - Brian!
Jenny - Ia! Watshia'r gwydr, Agnes! Mae o dan draed ym mhobman...!
Agnes - Dwed rywbeth!
Arwyn - Mae'r cwpwrdd yma'n racs! Edrychwch!
Agnes - Dydy e ddim yn ein hateb i! Brian!
Arwyn - Mae'r drws reit off ei 'hinges'! Beth yffach ddigwyddodd yma?
Agnes - Brian? Ti'n oreit?
Jenny - Arwyn, gofalus!
Arwyn - Pam? Beth sy'?
Jenny - Mae yna ddarn mawr o wydr yn fan'na...
Arwyn - Ble?
Jenny - Wrth dy droed di...
Agnes - Brian? Plis dwed rywbeth...
Jenny - Mae'r gwydr dros y llawr i gyd! Am lanast!
Agnes - Ateb fi! Brian! Ateb fi!
Jenny - Paid â sefyll yn fan'na, Arwyn!
Arwyn - Beth?
Jenny - Dos allan ar ei ôl o!
Arwyn - Pa ffordd aeth e?
Jenny - Dos i weld!
Arwyn - Does dim syniad 'da fi!
Jenny - Paid â gwastraffu amsar! Dos! Rwan!
Agnes - Brian? Wyt ti'n fy nghlywed i?
Agnes - Brian? Dwed rhywbeth wrtho i...
Jenny - Agnes - ga i weld?
Jenny - Mae ei lygaid e'n llonydd...Brian? Brian? Wyt ti'n gallu nghlywed i?
Jenny - "Concussion".....Dyna beth yw hyn...
Agnes - Neu "fractured skull" - does dim dal...
Jenny - Brian? Os wyt ti'n gallu 'nghlywed i, wnei di fy ateb i...?
Agnes - Dydy e ddim yn gallu dy glywed di...Dydy e ddim yn clywed dim.....!
Jenny - Mae ei byls o'n iawn, beth bynnag...
Agnes - Well iti ffono ambiwlans...
Jenny - Mi ffonia i am un rwan.
Agnes - A dwed wrthyn nhw am frysio.
Jenny - An ambulance.....Yes, urgently...It's Dr Jenny Saunders...11 Maes-y-Cilgwyn Estate, Pont-ar-...Sorry? What? Oh, for heaven's sake...Maes-y-Cilgwyn...M.a.e.s. - then another letter - y - then another one starting with a capital c. Which is all one word i.l.g.w.y.n. Estate... Got it?

Number 11...Yes...Good...The other name...? It's Pont-ar-Frengig (??)...Listen! This is ridiculous...We've got a seriously injured man lying on the floor here...Pont-ar-Frengig...Pont-ar-Frengig - It's capital P then o.n - Look is it possible to speak to a Welsh speaking operator? No, no, I appreciate the fact that you're trying your best but...Well, yes, you apologise as much as you like but your obviously not up to the job are you...?

Agnes - Jenny - dwed wrthyn nhw ei fod e'n gwaedu...

Jenny - P.o.n.t.a.r.f for freddy

Agnes - Mae e'n gwaedu'n ddrwg...

Jenny - Then it's r.e.n.g.i and g for gwaedu...No, gwaedu...Which means bleeding in Welsh. He's bleeding badly from a head injury...There was a scuffle and he must have hit his head...

Agnes - Plis dwed wrthyn nhw am frysio...

Jenny - Of course we need the police as well!

Agnes - Ydyn nhw'n dod? Jenny?

Jenny - Yes...Ah-huh...I'll ask my husband to meet the ambulance...No, he'll be with a torch down at the bottom of the lane leading into the estate...Yes, otherwise your driver might be all night trying to find out where we live...'Bye...

Arwyn - Ydy o'n well?

Agnes - Nac ydy...

Jenny - Welest ti rywun?

Arwyn - Fe weles i gar...

Jenny - Pa fath o gar? Arwyn, pa fath o gar?

Arwyn - Jyst...Dw i ddim yn gwbod.....Car...

Jenny - Ble oedd e? Ar y stad?

Arwyn - Ie...Roedd e wedi parcio ar ochr y ffordd...Jest ar bwys ty Rodney a Sandra Blackburn...

Agnes - Brian? Wyt ti'n gallu 'nghlywed i nawr?

Jenny - Gest ti rif y car?

Arwyn - Naddo...

Jenny - Pam?

Arwyn - Pam?

Jenny - Ie! Pam er mwyn dyn?

Arwyn - Roedd hi'n dywyll...Ac wrth i fi gyrraedd roedd y boi yn gyrru bant - heb oleuadau...

Jenny - Heb oleuadau?

Arwyn - Ie!

Jenny - I'r ffordd fawr?

Arwyn - I'r ffordd fawr! Ag ar yffach o spid!

Agnes - Brian, cariad plis dwed rhywbeth wrtho i...

Agnes - Edrychwch ar 'i lygaid e...

Arwyn - Mae e'n "concussed."

Jenny - Dyna beth ddwedais i.

Agnes - Gallai fe fod yn "fracture." Mae teils y llawr yma mor galed...

Agnes - Ble mae'r ambwilans 'na?

Jenny - Wnes i ddweud baset ti'n mynd i lawr at y ffordd fawr hefo fflashlamp, Arwyn...

Arwyn - Ie. Syniad da....

Agnes - Beth os yw Brian yn gwaedu yn fewnol?

Jenny - Paid â mynd o flaen gofid rwan.

Agnes - Neu wedi cael cleisiau ar ei ymennydd...

Jenny - Dal di ei ben o'n llonydd, Agnes...

Agnes - Mae e wedi mynd yn oer...Jenny, teimla fe...Teimla pa mor oer ydy e!

Ysbyty Brynaber: Episode 38

The ambulance arrives to take Brian to hospital, he is still unconscious. In the ambulance Jenny and Agnes discuss exactly what happened when the stranger called and asked to see Brian.

Geirfa

lapio	to wrap
blancedi	blankets
effeithio	to affect
gwlychu at y croen	soaked to the skin
sych	dry
gwelw	pale
gwirion (NW)	stupid/silly
ymosod ar	to attack someone

Golygfa 1

Agnes - Mae eisiau ei lapio fe yn gynnes...
Jenny - Agnes.
Agnes - Mae eisiau mwy o ddillad drosto fe...Gadewch i fi nôl blanced arall...
Jenny - Mae digon o flancedi gan y dynion ambiwlans.
Agnes - Mae eisiau mwy o flancedi...Mae hi mor oer tu fas...
Agnes - Dw i ddim eisiau iddo fe gael heipothermia...
Jenny - Fydd o'n iawn...
Agnes - Fydd e ddim...
Jenny - Agnes
Agnes - Ond mae Brian mor oer...Teimlais di ei law e...?
Jenny - Do...
Agnes - A mae unrhyw newid yn gallu effeithio ar ei metabolism e...
Arwyn - O.K. Are you ready, boys? Mind yourselves now...That garden path is very slippery...
Jenny - I'll hold the torch for the ambulance men, Arwyn...
Arwyn - Na, na...Does dim eisiau...Fe wnaif i...
Jenny - Dos i newid dy ddillad...Rwyf ti'n wlyb...
Arwyn - Dim ond glaw ydy e...
Jenny - Ond rwyf ti wedi gwlychu at dy groen...Dos i newid.
Arwyn - Gad i fi fynd â Brian draw at yr ambiwlans gynta...
Jenny - Well i fi agor yr ymbarel 'ma...
Arwyn - Be careful as you go now, boys...As I said, these stones are very slippery...
Agnes - Paid â phoeni Brian, byddi di yn yr ysbytu nawr...
Jenny - Dos i newid, Arwyn...
Arwyn - Yffach! Paid a ffyshian gymaint...
Agnes - Ma' Jenny'n iawn, Arwyn...
Jenny - Dwyt ti ddim eisiau dal dôs o annwyd wyt ti?
Arwyn - O.K. 'te...
Jenny - Eith Agnes a fi yn yr ambiwlans hefo Brian.
Arwyn - Af fi i newid i ddillad sych a do i draw i'r ysbyty yn y car.
Agnes - Does dim eisiau, Arwyn...
Arwyn - Oes ...Nawr - mewn â chi...

Golygfa 2

Jenny - Hei, hei...Paid â chrïo...
Agnes - Sori...Ffaelw help...
Jenny - Fyddwn ni'n yr ysbyty mewn munud...
Agnes - Mae gweld Brian fel hyn yn torri 'nghalon i.
Jenny - Fydd Brian yn iawn.
Agnes - Edrycha arno fe...Edrycha pa mor welw ydy e...
Jenny - Mae pawb yn edrach yn welw yn y golau yma.

Agnes - Mae e'n welw ofnadwy...
 Jenny - Dydy o ddim mor welw â hynny.
 Agnes - Dw i erioed wedi ei weld e'n edrych mor welw...Gobeitho bod dim "brain damage."
 Agnes - Sori.
 Jenny - Sori? Pam ti'n dweud sori?
 Agnes - Bod hyn wedi digwydd yn eich ty chi.
 Jenny - Paid â siarad yn wirion...
 Agnes - Tony...Pwy yffach o'dd e?
 Jenny - Tony - dyna'r cwblw ddwedodd o...
 Agnes - A dim byd arall?
 Jenny - Dim byd o gwblw...
 Agnes - Ond ddwedest ti...Ddwedest ti pan ddes ti mewn i'r stafell fwyta...Bod y Tony 'ma yn 'nabod Brian yn iawn...
 Jenny - Dyna beth ddwedodd o.
 Agnes - A beth arall ddwedodd e wrthot ti?
 Jenny - ...Wel, wnes i agor y drws ffrynt...Ac roedd o yna...
 Agnes - Bachgen ifanc, ie?
 Jenny - Ia...Gweddol ifanc...Boi byr, gwallt tywyll hefo spectol tinted...
 Agnes - A beth ddwedodd e?
 Jenny - "Ydy Brian Rees yma?" Ydy, meddwn i..."Alla i gael gair hefo fo?"
 Agnes - Cymro Cymraeg oedd e?
 Jenny - Sori, nage...Saesneg...Dw i'n meddwl mai Sais oedd o...
 Agnes - Beth ddwedodd e, te?
 Jenny - Is Brian Rees here? Yes he is, meddwn i. I want to have a word with him. A cyn i fi ddweud dim byd arall, mi ddwedodd o, 'Tell him its Tony.' He knows you? 'Yes,' medda fo, 'he knows me very well.'
 Agnes - Does dim syniad gy da fi pwy yw e...
 Jenny - Sori...Ond dyna'r cwblw ddwedodd o...
 Agnes - Pam wnaeth e ymosod ar Brian 'te? Pam wnaeth e ei fwrw e? Beth sy'n mynd ymlaen?

Ysbyty Brynaber: Episode 39

Brian has eventually arrived in hospital where a blood clot has been diagnosed. He undergoes emergency surgery. Arwyn and Jenny try to fathom out why Brian had been so brutally attacked.

Agnes and Dic discuss Brian's condition, Agnes is worried that the epileptic fit he suffered in the theatre might affect him for the rest of his life.

Geirfa

gwarchod	to babysit
addo	to promise
chwydd	swelling
clatshen (SW)	a beating
dim mwg heb dân	no smoke without fire
cyflwr	condition
does dim dal	there's no telling

Golygfa 1

Jenny - ...helo? Anwen? Sori ei bod hi mor hwyr...Paid â mynd i banic...Reit? Ond dy ffonio di ar ran Agnes Rees ydw i...Fi ydy ei ffrind hi, Jenny Saunders...Roedd hi a Brian yn cael swper hefo ni heno...Y rheswm dw i'n dy ffonio di rwan ydy i ddweud fydd Brian ac Agnes ddim yn dod yn ôl adref heno...Mae problem fach...Na, na - paid â phoeni...Jest fod Brian yn yr ysbyty...Mae o wedi brifo'i ben...Ond does dim eisiau i ti boeni, Anwen...Unwaith bydd Arwyn fy ngwr i'n cyrraedd yr ysbyty mi ddown ni draw ac fe gei di fynd adref wedyn - iawn? Felly wnawn ni dy weld di mewn rhyw hanner awr, gobeithio....A sori ei bod hi mor hwyr arna i yn ffonio ond paid â phoeni...O'r gorau? Welwn ni ti cyn bo hir.

Dic - Problem?

Jenny - O, Dic...! Ges i sioc...Na, na. Does dim problem. Dim ond ffonio babysitter Agnes a Brian o'n i...

Dic - Ie. Mae'n siwr ei bod hi'n beco pam eu bod nhw mor hwyr...

Jenny - Roeddwn i ar fai am beidio ffonio yn gynt...Faint o'r gloch ydi hi? Hanner awr wedi un...Merch ysgol ydy Anwen...Rydych chi'n iawn...Mae'n siwr ei bod hi'n poeni am Brian ac Agnes...Sut mae Brian?

Dic - Cerebral oedema.

Jenny - Pa mor ddrwg?

Dic - Wnaeth y scan ddangos "swelling" eitha drwg ar yr ymennydd mewn dau le...Ac mae blood clot...

Jenny - Ond dim 'fracture'?

Dic - Na. Beth yffach ddigwyddodd? Rhyw ffeit ddwedodd Sister Rees wrtho i...

Jenny - Arwyn...

Arwyn - Wel? Beth sy'n digwydd?

Dic - Mae Mr Brian Rees yn y theatr nawr.

Arwyn - A?

Jenny - Cerebral oedema.

Arwyn - Pwy sy'n operatio?

Dic - Surgeon Grasset.

Arwyn - Mae Brian mewn dwylo da. Does neb gwell na Tim. Dw i'n credu af fi draw...

Jenny - Na...

Arwyn - Na? Pam?

Jenny - Dw i wedi addo i Anwen, 'babysitter' Agnes yr awn ni draw...Fydd eisiau i ti neu fi fynd â hi adref...

Arwyn - Cer di.

Jenny - Ond pwy fydd yn gwarchod Rhodri a Brenda wedyn?

Golygfa 2

Arwyn - Yffach! Am noswaith a hanner! 'Dinner party' bach tawel. Dyna beth oedden ni fod i gael. Ac edrycha beth ddigwyddodd. Fel rhywbeth mas o ffilm gan y boi Tarantini 'na...
Jenny - Tarantino.
Arwyn - Beth?
Jenny - Tarantino. Ddim Tarantini.
Arwyn - Wel, beth bynnag yw ei enw e...Ti'n gwybod beth dw i'n feddwl...
Jenny - Gobeithio bydd Brian yn iawn.
Arwyn - Chaiff e neb gwell na Tim. Mae Tim yn 'top notch surgeon'.
Jenny - Chwydd. 'Swelling'. 'Clot'.
Arwyn - Ie, wel...
Jenny - Fel dwedodd Agnes - fydd hwn yn fawr o Nadolig iddyn nhw fel teulu - na fydd?
Arwyn - Na. Cofia di...
Jenny - Beth?
Arwyn - I gael y fath glatshen...Mae'n rhaid fod rhywbeth mowr o'i le rhwng Brian Rees a'r Tony yna...
Arwyn - Beth ti'n feddwl sy'n mynd ymlaen?
Jenny - Dim syniad.....
Arwyn - Fel mae Mam wastad yn ddweud, 'Does byth fwg heb dân yn nac oes?'
Jenny - Na...Na...Does dim mwg heb dân...Tyrd. Well inni fynd neu fydd Anwen yn dechrau poeni...

Golygfa 3

Dic - Sister Rees?
Agnes - Dr Allen...
Dic - Mae'n flin 'da fi glywed am Brian.
Agnes - Ie, wel...
Dic - Ond dw i'n siwr fydd popeth yn O.K.
Agnes - Dw i ddim mor siwr...
Dic - Pam?
Agnes - Chi heb glywed 'te?
Dic - Naddo...Clywed beth? Sister Rees...Clywed beth...?
Agnes - Wel...Os ddaw e trwyddi heno...Does dim dal sut fydd Brian...Ydych chi'n deall?
Dic - Ydw...
Agnes - Does dim dal o gwbl beth fydd ei gyflwr e...Tra oedd e yn y theatr, gafodd e epileptic ffit.....Does dim dal pa fath o niwed sy wedi ei wneud i Brian...
Dic - ...Dewch nawr...
Agnes - Does dim dal sut fydd e...Does dim dal o gwbl! Ydych chi'n deall beth wy'n 'weud wrthoch chi?

Synopsis

Following the incident at Arwyn and Jenny Saunders' house, Brian was rushed to hospital where he remained in a critical state.

Test yourself

1. What is the Welsh for the phrase 'no smoke without fire'?
 - a) Dydw i ddim yn ysmegu
 - b) **Dim mwg heb dân**
 - c) Does dim tân yn y ty
2. Translate 'We would go' into Welsh
 - a) **Faswn i'n mynd**
 - b) Fyddda i 'n mynd
 - c) Roeddwn ni'n mynd
3. What is the Welsh verb for 'to promise'?
 - a) **addo**
 - b) meiddio
 - c) chwyddo
4. What's the word in north Wales for 'silly'?
 - a) gwario
 - b) gwirio
 - c) **gwirion**
5. What's the Welsh for 'to babysit'?
 - a) gwyllo'r plant
 - b) eistedd y plant
 - c) **gwarchod**
6. How would you translate the Welsh phrase 'to get soaked to the skin'?
 - a) sychu at y croen
 - b) **gwlychu at y croen**
 - c) gwlychu at yr asgwrn